**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**27.03.2024 @7pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **MATERION PERSONOL A CHROESO'R CADEIRYDD**
   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Angharad Jones bawb i'r cyfarfod.
2. **PRESENNOL**
   Y Cyngh. Cymuned a Sirol Ifan Lloyd Davies;
   Y Cyngh. Alun Price Jones;
   Y Cyngh. Angharad Jones;
   Y Cyngh. Non Jones;
   Y Cyngh. Gareth Owen;
   Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans &
   Eleri Thomas (Clerc).
3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cynghorydd Mel Briant; Ieuan Davies; Gareth Edwards; Richard Jones ac Elgan Williams am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.
4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   **Fe wnaeth SCCH John Evans gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau'n ystod y mis diwethaf:**
   *Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch: sero
   *Bwrgleriaeth: sero
   *Difrod troseddol: digwyddiad yn Ffair Rhos, eiddo sensitif wedi'i ddifrodi.
   *Lladrad: 18.03.2024 ci defaid wedi mynd ar goll.
   *Trais / Ymosodiad: sero
   *Galwadau twyll / sgam: Parhaodd galwadau twyll ffôn.
   Ymddygiad cŵn: (fel y cyfeirir ato mewn cyfarfodydd blaenorol)
   Disgwylir ateb i'r consyrn, gan Gomisiynydd Heddlu Cymru (Dyfed Powys).
   Dywedodd SCCH John Evans fod cynrychiolwyr yr Heddlu mewn cysylltiad cyson â'r perchnogion. Cyflwynodd un unigolyn Datganiad i'r Heddlu parthed ymddygiad y ci; y canlyniad heb fod yn hysbys.

5. **DATGAN DIDDORDEB PERSONOL A RHAGFARNOL**
   **5.1** **Cyf cofnodion: 10.2 Rali CFfI:** Tregaron a'r Cylch 2024 – Cyng Cymunedol a Sirol y Cyng. Ifan Lloyd Davies
6. **CADARNHAU COFNODION Y 15fed O CHWEFROR 2024**
   **CYNIGIWYD, EILIWYD** a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion 15fed Chwefror 2024 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
7. **MATERION YN CODI**
   **7.1** **Ardal Chwarae Pantyfedwen:** Bydd angen grantiau i dalu costau matio'r ardal chwarae. Ail-agorwyd yr ail rownd o geisiadau o Gronfa'r *Cynnal y Cardi* ar 1 Chwefror 2024.
   Bydd rhai Cynghorwyr yn rhoi sylw i ffynonellau grant yn y dyfodol.
   **7.2** **Diffibrilwyr o fewn y cyffiniau**
   Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont oedd bellach 4-5 megis:
   1. Tafarn y Teifi: Ffair Rhos (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
   2. Neuadd Pantyfedwen, Bont: Clare Hughes wedi'i hawdurdodi'n warcheidwad o fewn y Gylchdaith.

3. Abaty Ystrad Fflur. (darparodd y Cyngor Cymuned y bocs): Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies i gysylltu â'r Pwyllgor a gwneud y trefniadau angenrheidiol i apwyntio gwarcheidwad awdurdodedig ar gyfer y diffibriliwr hwn.
4. Siop y Pentre: Gwarcheidwad awdurdodedig yw Ceredig o fewn y Gylchdaith.
5. Cytunodd Pennaeth Ysgol Bont i'r diffibriliwr sy'n weddill gael ei leoli ar safle'r ysgol (o bosib o fewn y maes parcio). Bydd angen clustnodi Gwarcheidwad swyddogol ar gyfer y diffibriliwr. Angharad i gysylltu â'r Pennaeth i symud y mater yn ei flaen.

**7.3** **MS Elin Jones: Holiadur:** Effaith cyflwyno'r cyfyngiad cyflymder 20mya o fewn ardaloedd dynodedig:

**Dau gwestiwn allweddol:**

*A oes unrhyw ffyrdd yn eich ardal lle mae angen newid y terfyn cyflymder o 20mya i 30mya?*

*A oes unrhyw ffyrdd eraill yn eich ardal lle mae angen newid y terfyn cyflymder?*

Cytunwyd i fynegi'r canlynol:

"Dylid cadw 20mya yng nghanol y Pentref ac yng nghyffiniau'r ysgol.

Dylid newid mynedfeydd i'r Pentref e.e. ger Dolawel, i'r cyflymder cynt o 30mya.

Mynegodd y Cyngor Cymuned bryder am y gost. Nid oedd llawer o fodurwyr yn cydymffurfio â'r cyfyngiad cyflymder o 20mya. Mae angen cydbwysedd rhwng cyflymder, cyfleustra a diogelwch gyda'r bwriad o leihau marwolaethau a sŵn."

Dymunai'r Cynghorydd Ifan Lloyd Davies nodi nad oedd am wneud newidiadau i'r cyfyngiadau cyflymder 20mya presennol o fewn Ward Cyngor Cymuned Ystrad Fflur.

**7.4** **Llifogydd yng nghyffiniau'r afon Teifi:** Tocio coed penodol yn y cyffiniau. Roedd y Cynghorydd Non Jones a'r Cynghorydd Richard Jones wedi torri coeden ger y Llew Coch.

**7.5** **Baneri: Ffair Rhos a'r ardal gyfagos:** Y Cynghorydd Ieuan Davies i ymweld â siop, yn gwerthu baneri addas, yng Nghaerdydd. Dim datblygiadau yn ystod y cyfarfod hwn.

**7.6** **Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned CS Ceredigion:**

Roedd cwestiynau wedi'u cyflwyno (cyfeiriwch at 18 Ionawr 2024 Cofnodion):

1. Mae ardaloedd gwledig yn debyg i ardal Cyngor Cymuned Ystrad Fflur a'r cylch wedi colli nifer o wasanaethau cyhoeddus allweddol, yn y blynyddoedd diwethaf ee y pwll nofio, Tregaron sy'n cymharu'n anffafriol ag ardaloedd trefol o fewn y sir ee Aberystwyth. Pa gamau sydd ar waith i sicrhau cysondeb gwasanaethau/ cyfleusterau rhwng ardaloedd gwledig a threfol? Mae angen sicrhau bod darpariaeth cyson rhwng yr ardaloedd daearyddol.
   *Yn y Strategaeth Gorfforaethol mae'r Sir wedi ei rannu i 3 ardal. Mae cysondeb rhwng y trefi a'r pentrefi/ardaloedd gwledig yn fwy anodd ac mae hwn yn ddadl ni'n cael yn gyson gyda Llywodraeth Cymru, hynny yw bod angen ystyried tlodi gwledig a diffyg mynediad at wasanaethau. Mae angen bod hwn yn cael ei gynnwys yn ffactor yn y fformiwla ariannu o LlC. Esiampl o hyn – mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud buddsoddiad mawr yn y rhwydwaith trên yn yr ardaloedd poblog; ond ar yr un pryd tynnu £1m allan o system Bwcabws. Yr ardaloedd gwledig sy'n dioddef.*
2. Safle Dosbarth 6 y dyfodol: a fydd y gost trafnidiaeth yn rhad ac am ddim a hynny'n statudol ar gyfer disgyblion a fydd yn teithio i safle y 6ed Ddosbarth?
   *Mae yna astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal ar hyn o bryd i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion. Yn ystod cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2023, rhoddodd Aelodau'r Cabinet gyfarwyddyd i'r Gwasanaethau Ysgolion Dysgu Gydol Oes i gynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl i edrych ar wahanol opsiynau i sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth addysg ôl-16 yn y sir yn y dyfodol. Cafodd pedwar opsiwn eu hystyried gan Aelodau'r Cabinet ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth, sy'n cynnwys: • Opsiwn 1: Cynnal y Sefyllfa Bresennol • Opsiwn 2: Datblygu'r Sefyllfa Bresennol Ôl-16 – byddai'r ddarpariaeth ôl-16 yn parhau ar y chwe safle presennol • Opsiwn 3: Darpariaeth mewn rhai ysgolion – byddai hyn yn golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 mewn un neu fwy o safleoedd. • Opsiwn 4: Un Ganolfan Ragoriaeth - sefydlu Canolfan Ragoriaeth, yn cynnwys ystod o bartneriaid, mewn un neu fwy o safleoedd daearyddol addas. Daethpwyd i'r casgliad y dylai'r astudiaeth ddichonoldeb ganolbwyntio ar opsiynau 2 a 4*

3. Yn dilyn llythyr Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion (amgaeedig) a allech gynnig cyngor ymarferol ar sut all y Cyngor Cymuned barhau â'r gwasanaethau yr ydych yn crybwyll yn y llythyr?
*Trafodwyd hwn yn y cyfarfod – gweler nodiadau'r cyfarfod. Atodiad 1 27.03.2024*

7.7 **Cofnodi enwau ychwanegol ar Gofeb Ryfel Bont.** Mewn cyfathrebiad blaenorol gofynnodd Mr John Jones, Ffair Rhos a fyddai modd arysgrifio enwau ychwanegol ar y Gofeb Ryfel. Diolch i ymchwil ymroddedig Lyn Ebenezer, roedd enwau'r 3 a laddwyd mewn damwain awyren ym Mhen-Bwlch bellach yn hysbys sef:
Peilot: Swyddog Awyr GB Bainbridge
Peilot Cynorthwyol: RG Cosgrave;
Serjant Aer Ategol: W. Powell

Yn ogystal, roedd enw arall ar goll o gofeb y Rhyfel Byd Cyntaf. Diolch eto i Lyn, - Richard David Davies, Rock House. Bu'n byw ym Mhontrhydfendigaid nes iddo ymfudo gyda'i deulu i Awstralia ac ymuno â byddin y wlad honno. Bu farw yn Fromelles yn 1916.
Cysylltwyd â Paul James i ofyn a allai arysgrifio enwau'r uchod ar blac.

**Cyflwynodd James Memorials Cyf Dyfynbris.**
i gyflenwi un plac gwenithfaen caboledig coch Balmoral deuddeg "x 8" x 2". Torri arysgrif yn ôl y gofyn a'i gorffen mewn deilen aur. Plac wedi'i osod i'r gofeb rhyfel islaw'r plac presennol yn ôl yr angen.
Ychwanegu arysgrif newydd (Richard David Davies, Rock House) ar ochr ddeheuol y gofeb rhyfel wedi'i thorri â llaw i gyd-fynd â llythrennau presennol ac wedi gorffen mewn deilen aur.

Roedd cynllun drafft yr arysgrif wedi'i amgáu.

| | |
|---|---|
| i gyd am y swm o | £1495.00 |
| TAW @ 20% | £299.00 |
| CYFANSWM | £ 1794.00 |

**PENDERFYNWYD**: i drafod yn y cyfarfod canlynol.

7.8 **Tendrau ar gyfer torri glaswellt, yn y Pentref dros fisoedd yr haf.**
**Cafwyd un datganiad o ddiddordeb gan Mr Dilwyn Benjamin**
1. Glan-yr-Afon £65 /toriad x3
2. Rhif. 1-5 Maesydderwen £65/toriad x 3
3. Mynediad i'r pentref tua 2 fetr o'r arwydd wrth y brif fynedfa gan gynnwys y Glas £125 x 6
4. O gwmpas Neuadd Pantyfedwen i gynnwys oddi fewn ffens yr Ysgol Feithrin a'r Parc £160 toriad x 6

Amcanbris fesul toriad.
CYFANSWM £2,100 + TAW
Cytunwyd i dderbyn y dyfynbrys. Y toriad cyntaf i'w wneud cyn ddiwedd Ebrill ac ar ôl y cyfnod hwnnw bydd Cynghorydd Cymunedol yn cysylltu â Dilwyn i asesu'r sefyllfa. Cytunwyd enwebu Cynghorydd ar gyfer y rôl yn ystod y cyfarfod nesaf.

7.9 **Casglu Sbwriel o fewn y cyffiniau: PENDERFYNWYD ar** Ddydd Mercher 1 Mai 2024 @5.30pm i gasglu sbwriel. I ymgynnull ger Neuadd Pantyfedwen/ Cae Pêl-droed. I gasglu'r offer dan law Clare (Hughes). I'w bostio ar fb.
**CYTUNWYD** i ddiolch i Clare am ei hymdrechion diweddar a pharhaus wrth gasglu sbwriel o gwmpas y Pentref a thu hwnt.

**8. GOHEBIAETH**

**8.1 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru:** Ymgynghoriad ar Gynigion Ffiniau Wardiau Cymunedol: Cynigiodd y Comisiwn ddiddymu cymunedau Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig ac uno'r 3 ardal i ffurfio ward newydd megis *Cymuned Ystrad Fflur.* Cynigiwyd i drefniadau arfaethedig cynghorau cymuned newydd Ystrad Fflur gael cyfanswm o 1,274 etholwyr a chael eu cynrychioli gan saith cynghorydd cymuned o'i gymharu â'r chwech ar hugain presennol. **CYTUNWYD**: i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
Cyhoeddwyd yr Adroddiad yn electronig yn ôl cais Cyngor Sir Ceredigion a gellir ei weld ar y wefan.

**8.2 Arolwg Bancio: Ben Lake (BL) AS: diolchodd i'r Cyngor Cymuned am gwblhau'r arolwg.** Y casgliad cyffredinol oedd nad oedd y gwasanaeth presennol a ddarparwyd gan fanciau yng Ngheredigion yn ddigonol o bell ffordd. Teithiodd rhai swyddogion ac aelodau o sefydliadau elusennol a chymunedol bellter hir i gyrraedd eu cangen, a hyd yn oed wedyn, nid oeddent yn gallu cwblhau'r tasgau yr oeddent wedi gobeithio eu gwneud. Wrth i fanciau barhau i gau canghennau ar draws y sir, doedd hyn ddim yn ddigon da, a dweud y lleiaf.

Wrth symud ymlaen, bydd BL yn trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i drafod y sefyllfa hon ac i fynegi ei bryderon am ddyfodol bancio yng Ngheredigion. Bydd ymatebion o'r arolwg a'r profiadau (yn ddienw) yn cael eu defnyddio i ddangos realiti bancio a'r anawsterau a wynebir gan bobl a sefydliadau, i gyfleu nad oedd y gwasanaeth ar hyn o bryd yn cydymffurfio â gofynion y 'Ddyletswydd Defnyddwyr' a gyhoeddwyd gan yr FCA yn 2022. Roedd angen amodau llymach ar fanciau i ddarparu'r gwasanaeth yr oeddent wedi'i addo, er mwyn sicrhau bod eu cwsmeriaid yn cael eu diogelu ac mai eu hanghenion oedd y brif flaenoriaeth.

Yn ogystal â chyfarfod â'r FCA, roedd BL yn gobeithio cwrdd â LINK. LINK oedd rhwydwaith ATM mwyaf y DU, gan gysylltu bron pob un o beiriannau ATM y DU a sicrhau bod gan gymunedau fynediad at arian parod yr oedd angen arnynt. Roedd LINK hefyd yn gyfrifol am asesu os oedd digon o alw cymunedol ac angen canolfan fancio. Bwriad BL oedd cyfarfod gyda LINK i fynnu eu bod yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu canolfan fancio yng Ngheredigion cyn gynted â phosib, gan ystyried faint o drefi oedd ar ôl heb unrhyw ganghennau na digon o wasanaethau bancio.

Cyfoethogodd sefydliadau elusennol a chymunedol fywydau pawb yng Ngheredigion mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ac roedd BL yn benderfynol o sicrhau nad oedd y sefyllfa bresennol gyda'r banciau yn effeithio ar y ffordd yr oeddent yn gweithredu.

**8.3 Gohebiaeth gan y Cynghorydd Ieuan Davies ar ran Mr Ted Jones, Ffair Rhos yn** gofyn tybed a fyddai modd gosod arhosfan bws newydd yn Ffair Rhos i helpu teithwyr sy'n teithio i gyfeiriad Ystrad Meurig. **CYTUNWYD**: i ofyn i'r Cynghorydd Ieuan Davies drefnu cyfarfod rhwng Mr Ted Jones a rhai aelodau o'r Cyngor Cymuned. Hefyd i hysbysu Adran y Priffyrdd CS Ceredigion a gofyn tybed a fyddai modd caniatáu cais Mr Jones.

**8.4 Cynghorydd Tref a Chymuned Cynrychiolydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion**
Bydd angen penodi cynghorydd Cyngor Tref a Chymuned newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn dilyn ymddiswyddiad diweddar. Gofynnodd CS Ceredigion am enwau Cynghorwyr o fewn Cynghorau Tref a Chymuned a oedd â diddordeb

mewn rôl: *Aelod Etholedig Cynghorydd Tref a Chymuned* o fewn Pwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.
Gofynnwyd i Gynghorwyr â Buddiant gyflwyno eu CV i ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk erbyn **30 Ebrill 2024.**

**8.5** **Urdd *Cronfa i Bawb,*** a fydd eleni yn cynnig tri chant o lefydd am ddim yng ngwersylloedd haf yr Urdd i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae lleoedd penodol wedi cael eu neilltuo gan rai cymunedau, ond roedd lleoedd ar ôl ar gyfer unrhyw blentyn neu berson ifanc a oedd yn gymwys. Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned rannu taflen o fewn y gymuned er mwyn rhoi cyfle i gymaint o bobl â phosibl wneud cais os oes ganddynt ddiddordeb. Gellir gwneud ceisiadau ar y wefan: https://www.urdd.cymru/en/support-us/cronfa-cyfle-i-bawb/gwneud-cais-ir-gronfa/

**CYTUNWYD**: i arddangos ar FB ac i hysbysu'r Ysgol leol.

**8.6** **Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig -** roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u hanfon ymlaen at Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.

**9. CYNLLUNIO**

**Dim materion cynllunio.**

**10. CYLLID**

**10.1** **Un Llais Cymru:** Aelodaeth Flynyddol: £69
**10.2** **Rali CFfI:** Tregaron a'r Cylch 2024: £100
**10.3** **Gwasanaethau Coed Llambed Cyf:** Gwaith coed wrth gefn Maesydderwen, Pontrhydfendigaid £210 TAW £42
**10.4** **Cyflog y Clerc Chwefror / Mawrth 2024** £238.33 x 2 (gros)
**10.5** **Costau'r Clerc £51.50** TAW £10
**10.6** **Neuadd Pantyfedwen Archwiliad Ariannol** d/l Mrs Enid Hughes: £100
**10.7** **Asesiad Ariannol:** Arian wrth gefn: diwedd y flwyddyn ariannol 2023-24. Gweler y Fantolen Ariannol £5,414.08. Bydd angen ceisio grant ar gyfer gwelliannau'r parc.

**11. Tudalennau ar gyfer Facebook:**

**11.1** **Cyf cofnodion: 8.5 Urdd *Cronfa i Bawb, Poster a Gwybodaeth***
**11.2** **Casgliad Sbwriel 1.05.2024**

**12. UNRHYW FATER ARALL**

**12.1** **Baw cŵn** yn peri'n broblem ar strydoedd Pontrhydfendigaid i gynnwys cyffiniau'r Llew Coch.
**12.2** **Tyllau Pot–**yn amlwg ar sawl ffordd e.e. Cyffordd Ffair Rhos, Heol Mynachlog, Heol Llew Du, Cyffordd o Heol yr Abaty. i adrodd at sylw CS Ceredigion.
**12.3** **Banc Poteli'r Pentref:** Bydd CS Ceredigion yn darparu Banc Poteli i gymryd lle'r hen Fanc Poteli, oedd yn eiddo i gwmni preifat.
**12.4** **Coeden wedi'i lleoli ar y Glas (**Yn gyntaf/2ail o'r hen Eglwys) nid oedd yn ymddangos yn saff. Cyngor Cymuned i ymchwilio.
**12.5** **Cartref Statig ger yr Eglwys gynt a Chofeb Ryfel:** Cyng. Cymuned a Sirol Ifan Lloyd Davies i ymgynghori â'r Adran Gynllunio CS Ceredigion am gyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.**

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Dydd Iau 18 Ebrill 2024 @7pm.**

**Dyddiad / Dyddiad -----------------------------------------------------------------------------------------**